Pris: 50c

# Papur Pawb

Mai 2020 Rhif 459



Ffenestr liwgar a neges amserol Ruth Jên

tud 5 Iar Fach yr Haf
tud 8 Holiadur
tud 13 Grŵp gwnïo Bronglais
tud 16 Camp Mair

# Dim Sioeau Eleni?

Yn ddiweddar cyhoeddwyd bod Sioe Arddwriaethol Llangynfelyn wedi'i ganslo. Derbyniwyd y datganiad syml canlynol gan y pwyllgor: 'Yn anffodus oherwydd y sefyllfa bresennol o ran Covid 19 mae'r pwyllgor wedi gwneud y penderfyniad i ganslo sioe eleni.'

Ar hyn o bryd nid yw pwyllgor Sioe Amaethyddol Tal-y-bont wedi dod i benderfyniad ynglŷn â'r Sioe sydd i'w chynnal ar ddydd Sadwrn olaf Awst. Nid oes newyddion chwaith parthed Treialon Cwn Defaid eleni. Gobeithiwn adrodd ymhellach ar y sefyllfa yn y rhifyn nesaf.

Rydym yn ffodus yn yr ardal hon nad yw'r haint wedi'n taro ni'n ddrwg o'i gymharu â rhannau eraill o Gymru a'r byd tu hwnt. Mae'n amlwg hefyd fod trigolion y dalgylch wedi cymryd y rhybuddion o ddifri ac yn ofalus iawn wrth iddynt fynd o le i le. Gwelwyd nifer o wynebau anghyfarwydd yn crwydro llwybrau lleol a'r ofn yw y bydd llawer mwy o ddieithriaid yn cyrraedd wedi i'r cyfyngiadau presennol gael eu llacio. Gofal piau hi o hyd.


*Teulu Fothergill yn cefnogi'r gweithwyr allweddol mewn dull anarferol*

Mae agwedd gymwynasgar y gymuned wedi dod i'r amlwg fel yr adroddir mewn sawl man yn y rhifyn hwn o *Bapur Pawb* ac mae lle i ddiolch i'r rhai sy'n cynnal y siopau a gwasanaethau, yn ogystal â'r grwpiau a'r unigolion lleol sy'n cynorthwyo'r rhai mwyaf bregus yn y gymuned.

Mae grŵp Cofid Tal-y-bont yn dal i weithredu dan ofal Eryl Bray ac eraill, a chawsant gyfarfod anffurfiol ar 4 Mai gyda chynrychiolwyr Cyngor Bro Ceulanamaesmawr, dan arweiniad Nia Richards, pryd y pwysleisiwyd yr angen i gydweithio.

Clywir y clapio ar hyd a lled y gymuned am 8 o'r gloch bob nos Iau ac, fel y gwelir yn y llun, mae 'na frwdfrydedd amrywiol i gydnabod cyfraniad staff y gwasanaeth iechyd a'r gweithwyr gofal. Does ond gobeithio y cânt eu cofio pan ddaw'r cyfnod enbydus hwn i ben.

Braf yw medru adrodd fod Y Lolfa wedi ail-ddechrau argraffu, a hynny dan amodau cyfyngu llym o safbwynt diogelwch y staff. Y rhifyn hwn *o Bapur Pawb* oedd y cyntaf i ymddangos o'r peiriant argraffu a ry ni'n ddiolchgar i staff Y Lolfa am y fraint.

Roedd yn drueni nad oedd rhifyn Ebrill o'r papur ar gael yn ei ffurf brintiedig ond mae'r ystadegau a gasglwyd yn dangos bod llawer iawn o'n ddarllenwyr wedi llwyddo i'w ddarllen ar ein gwefan. Bydd y rhifyn hwn hefyd yn ymddangos yn ddigidol ar ein gwefan yn y man (www.papurpawb.com), yn ogystal ag ar wefan ein cyfeillion yn BroAber360.

Mae gwefan *Papur Pawb* hefyd yn cynnwys gwybodaeth ddwyieithog sydd yn ddefnyddiol i bawb yn ystod y cyfnod anodd hwn. Diweddarir y wybodaeth o dro i dro.

Ry' ni yma o hyd.

*GJ*

**Aros Adref | Amddiffyn y GIG | Achub Bywydau**

## Papur Pawb

| | | |
|---|---|---|
| **Golygydd Cyffredinol:** | Gwyn Jenkins<br>Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion<br>golygydd@papurpawb.com | **(01970) 832560** |
| **Tynnu lluniau:** | Cysyllter â golygyddion y mis | |
| | **GOHEBYDDION LLEOL** | |
| **Tal-y-bont:** | Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont | **832592** |
| **Maes-y-deri:** | Karren Roberts | **07800 806578** |
| **Parsel Henllys:** | Lynwen Morgan | **832498** |
| **Bont-goch:** | Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch | **832566** |
| **Tre Taliesin:** | Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin | **832230** |
| **Tre'r-ddôl:** | Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl | **(01654) 781260** |
| **Eglwysfach/Ffwrnais:** | Non Griffiths | **(01654) 781264** |
| **Rhwydweithiau cymdeithasol:** | Ceri Morgan | |
| | **CYMDEITHAS PAPUR PAWB** | |
| **Cadeirydd:** | Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont | **832697** |
| **Is-gadeirydd:** | Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch | **832566** |
| **Ysgrifennydd:** | Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont | **832344** |
| **Trysorydd:** | Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont | **832093** |
| **Tanysgrifiadau:** | Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont | **832448** |
| **Hysbysebion:** | Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont | **832076** |
| **Plygu'r Papur:** | Gwenllïan Parry-Jones; Beti Jenkins | |
| **Dosbarthwyr:** | Lynn Ebenezer; Gwenllïan Parry-Jones; Carys Briddon, Bob Williams | |

*Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.*

**am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan...**
**www.papurpawb.cymru**
**hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)**
CYMRAEG


# Llyfr newydd i ddathlu'r twf mewn cefnogaeth i annibyniaeth!

Mae Gwasg y Lolfa'n paratoi cyfrol ddwyieithog i drafod a dathlu'r twf mewn cefnogaeth i Annibyniaeth i Gymru. Bydd y gyfrol yn cynnwys detholiad o straeon gan unigolion sydd wedi tystio i'r twf yma ers Ewros 2016, sydd wedi ymuno â'r ymgyrch yn sgil refferendwm Brexit neu wedi penderfynu yn nyddiau'r Coronavirus mai annibyniaeth i Gymru yw'r unig ffordd ymlaen.

Meddai golygydd y gyfrol, Mari Emlyn: "Byddai'n dda cael straeon o bob cwr o Gymru yn nodi pam eich bod chi wedi dewis cefnogi annibyniaeth i Gymru. Beth oedd y sbardun i chi gefnogi'r ymgyrch? Pam bod angen annibyniaeth? Byddai'n dda hefyd pe gallech anfon lluniau ohonoch chi a'ch teulu/ffrindiau i gyd-fynd â'ch profiad – yn yr Ewros yn 2016, mewn cyfarfodydd canghennau Yes Cymru, ar un o'r gorymdeithiau dros Annibyniaeth, o fewn eich cymuned neu yn eich cartref yn ystod y *lockdown*."

Cysylltwch gyda Mari Emlyn i gynnig eich lluniau a'ch straeon: mari.emlyn@btinternet.com. Dyddiad cau derbyn deunydd yw **1 Mehefin, 2020.**


**LRJ**
**Plymio cyffredinol a chynhaliaeth**
Llion Jenkins
**07958 701861**
llionjenx94@hotmail.co.uk



NICEIC APPROVED CONTRACTOR
**Alun Davies**
Contractiwr Trydanol
**T** 01970 832142 **M** 07703 169813
Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA
**E** alun.davies142@btinternet.com




*Minnie Evans gyda'i phlanhigion*

# Ysbryd Cymunedol Bont-goch

Bu'n gyfnod rhyfedd iawn yn y pentref dros yr wythnosau diwethaf wrth i'r rhan fwyaf o'r boblogaeth hunan ynysu neu weithio adref. Ymatebodd pawb yn bositif iawn i'r argyfwng, a bu tudalen *Facebook* y pentref yn gyson lawn o negeseuon gan unigolion yn cynnig siopa dros eraill, neu gydlynnu archebion am brydiau ar glud, a chydlynnu archebion i siopau lleol. Bu'r ysbryd cryf cymunedol hwn yn gysur mawr ac yn gymorth i lawer ohonom.

Dilynwyd yr arfer o glapio gweithwyr allweddol ar nos Iau yn ffyddlon, ac ni fu pentref Bont-goch mor swnllyd erioed wrth i bawb ddod â'u clychau a'u sosbenni i'r drws ffrynt i'w taro mewn gwerthfawrogiad. Yn ogystal â gweithwyr ffyddlon yr NHS diolchwn hefyd am wasanaeth siriol ein postmyn, casglwyr sbwriel a'r cludwyr nwyddau sydd wedi bod yn arbennig o brysur.

Daethom i gyd dros nos yn arbenigwyr ar ddefnyddio Skype, Facetime a Whatsapp, a bu'r plant lleol yn brysur yn peintio enfysau i'w gosod yn ffenestri eu cartrefi fel arwydd o obaith y daw eto haul ar fryn, pan gawn i ni ail agor yr Eglwys a'r parc chwarae, er y bydd y normal newydd yn dra gwahanol, mae'n siŵr.

Ac wrth sôn am haul ar fryn yn dychwelyd, un o enghreifftiau mwyaf gwreiddiol o hybu gobaith oedd penderfyniad Minnie Evans, saith oed, o Hen Dŷ'r Ysgol, Bont-goch, i gynnig planhigyn blodyn yr haul yn rhad ac am ddim i bawb yn y pentref, ac yna i weld pa un fyddai yn tyfu ymhen amser i'r uchder mwyaf. Dosbarthwyd 23 ohonynt. Da iawn Minnie – cawn weld pwy fydd wedi llwyddo i dyfu'r blodyn talaf yn y pentref!mae'r glaw dros y dyddiau diwethaf wedi helpu'r un sydd gennyf i saethu fyny!


**GWASANAETH GARDDIO MYNACH**
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Chwynu
Dal Gwaddod
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol

Ffoniwch Meirion:
**01974 261758**
**07792457816**

**mynachgarden@yahoo.com**


**Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.**

## Golygyddion

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Helen a Ceri a oedd hefyd yn dylunio. Diolch iddynt.
Y golygyddion ar gyfer y rhifyn nesaf fydd Eirian a Geraint (eirianageraint@gmail.com).
Y dyddiad cau yw 5 Mehefin a bydd y papur ar werth ar 12 Mehefin.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn yn ddwys â Pamela Marsden, Bryn Derw, Taliesin, a'i theulu ar golli ei mam 28 Mawrth. Roedd mam Pamela yn byw yng Nghilgwri ac yn arfer mwynhau ei hymweliadau â Thre Taliesin.

Ar ddiwrnod ei phen-blwydd yn 96 mlwydd oed bu farw Shan Jenkins, gynt o Benrhyngerwyn, Tre'r Ddol wedi cystudd hir. Cydymdeimlwn a'i gwr William, ei phlant David a Margaret, a'r teulu oll.

Bu farw Mrs Marian Eluned Jenkins yn ei chartref, Eryl, Llandre ar 3 Ebrill ar ôl salwch hir. Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant iawn i'w theulu, gan gofio'n arbennig am ei phriod Mr Eddie Jenkins, ei phlant Hywel Siôn a Rhiannon, a'i nith Elen Clwyd Roberts, sy'n byw yn Mynydd Gorddu, Bont-goch. Coffa da amdani.

Estynnir ein cydymdeimlad dyfnaf â Meleri Mair, Tŷ Capel, Bont-goch ar farwolaeth ei brawd Alcwyn Deiniol Evans yn Y Barri ar 1 Mai.

Cydymdeimlwn yn fawr â Bill Gardiner, Pandy, Tal-y-bont, ar farwolaeth ei wraig Barbara mewn cartref preswyl yn Aylesbury.

Cydymdeimlwn hefyd â Falyri Jenkins, Maesgwyn, Tal-y-bont, a'i theulu, ar farwolaeth ei thad, Denis Vaughan Griffith, yn ei gartref yn Rachub, Bethesda, taid Luned a Ioan a hen daid Taliesin.

Cydymdeimlwn â John Williams (Bob the Plumber), Tal-y-bont ar farwolaeth ei frawd Roy Williams o Benparcau.

**Pen-blwydd arbennig**
Dymuniadau gorau i Beryl Evans, Glanyrafon ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.


***"Yr wyf i yn datganu taw hon yw fy Ewyllys olaf a dirymaf unrhyw Ewyllys flaenorol a wnaed gennyf"***

Ewyllysiau Cymraeg
gan
Ruth Ceri Jones LL.B. (Hons)

Os oes diddordeb gyda chi mewn cael Ewyllys yn yr iaith Gymraeg cysylltwch trwy ebost ar
**ruthcjones25@aol.com**

(Aelod o Gymdeithas Ysgrifenwyr Ewyllysiau)


# Pobl a Phethe



## Croeso i'r Cymro bach

Dyma lun i godi calon. Mae Benjamin Lamb wedi ymgartrefi dros dro yng Nglandŵr, Tal-y-bont gyda'i rieni, Jonathan ac Angharad. Mae'n siwr eu bod yn edrych 'mlaen at groesawu mamgu a dadcu Lamb, sef Henry ac Emma nôl o Iwerddon er mwyn cael hoe fach! Dymuniadau gorau iddynt.

**Y gog a'r wennol**
Hyfryd nodi fod y gog a'r wennol wedi dychwelyd yn ddiogel i ardal Papur Pawb eto eleni. Clywyd hi gyntaf gan un o ddarllenwyr y papur ar 19 Ebrill a gwelwyd y wennol gyntaf ar 27 Mawrth. Tybed a oes untrhywun yn gallu curo'r dyddiadau yma?

## Crysau Tal-y-bont

Yn y rhifyn diwethaf mynegwyd pryder fod tîm pêl-droed Tal-y-bont wedi newid lliwiau eu crysau o'r lliwiau traddodiadol o felyn a du i goch. Cysylltodd un o hoelion wyth y clwb, Evan Rowlands, â'r papur i esbonio mai crysau newid oedd y rhai coch a bod y tîm y parhau i wisgo crysau melyn a du fel dewis cyntaf. Ymddiheurwn am ein camsyniad.

**Ffwrnais**
Er gwaethaf y sefyllfa drist ar hyn o bryd, mor hyfryd yw prydferthwch y gwanwyn. Beth well i lonni'r galon, na chlywed y gog yn canu, gweld y gwennoliaid yn
brysur baratoi eu nythod. a'r wyn bach yn prancio yn y caeau.

Mae byd natur ar ei ogoniant, gyda'r blodau gwyllt. Mae'n wledd i'r llygaid i aroglu a cherddded drwy garpedu o glychau glas.

Mae'n rhaid cydnabod pwy mor ffodus ydym i fyw mewn ardal wledig y wlad, ac i gofio am y rhai sydd yn byw yn ein dinasoedd.

**Capel Bethel**
Oherwydd rheolau COVID-19 mae'n debygol na fyddwn yn medru mynychu oedfaon am dipyn o amser eto. Yn ystod y cyfnod hwn mae Geraint Evans, Garnwen wedi bod yn paratoi myfyrdod misol i aelodau a chyfeillion Bethel. Os hoffech dderbyn copïau o fyfyrdodau Mawrth ac Ebrill ar ffurf atodiad i ebost cysylltwch â Geraint yn uniongyrchol ar post@garnwen.org.uk. Mae modd hefyd cynnwys eich manylion ar y rhestr ddosbarthu o hyn allan.

**Colli cymeriad**
Trist iawn yw cofnodi marwolaeth un o gymeriadau Tal-y-bont yn y dyddiau a fu, sef Jimmy White. Bu yntau farw yn 69 mlwydd oed ar 6 Ebrill yng Ngwlad Thai lle y bu'n byw am dros ugain mlynedd gyda'i wraig a'u tair merch.

## Jôc

Roedd dyn yn croesi Pont y Borth yn ei gar.
Cafodd ei stopio gan yr heddlu.
Sut 'dach chi? holodd yr heddwas.
Iawn, diolch i chi.
Wedi dod o bell?
Ydw wir.
Ble buoch hi. 'ta?
I 'gnhebrwng.
Perthynas?
Na.
Cymydog?
Na.
Wel chi'di torri'r gyfraith 'lly.
Naddo, fi oedd y gweinidog!

# Ysgol Tal-y-bont




Efallai bod y cyfnod 'dan glo' wedi ein caethiwo ni gyd yn gorfforol dros yr wythnosau diwethaf, ond o'n safbwynt yr ysgol, mae wedi agor y drws i bob math o weithgarwch creadigol ac annisgwyl. Rhaid talu teyrnged i holl staff yr ysgol am eu gwaith yn ystod y cyfnod yma, yn paratoi tasgau diddorol i'r plant dros gyfrwng yn rhyngrwyd ac am gadw cysylltiad rheolaidd gyda'r teuluoedd hefyd.

Mae'r we wedi sicrhau eu bod yn gallu cyfathrebu gyda'r plant yn ddyddiol ac maent yn derbyn eu gwaith fel hynny bob diwrnod. Er bod rhai yn penderfynu gwneud y tasgau yn y ffordd draddodiadol gyda phapur a phensil, mae'r ysgol wedi derbyn cannoedd o fideos gan y plant yn eu dangos yn brysur wrth eu gwaith. Mae'r cyfan yn creu yn gofnod cyfoethog iawn o'r sefyllfa bresennol. Yn ogystal â chyflawni tasgau iaith a mathemateg, mae'r athrawon wedi derbyn fideos yn dangos y plant yn canu, yn dawnsio, yn jyglo, yn gofalu am anifeiliaid anwes a rhai'n cynnig hyfforddiant sgiliau pêl-droed hyd yn oed.






*Finley Saycell yn cyflawni ei waith Mathemateg ac yn cyfuno hynny gydag efelychu'r Capten Tom Moore wrth redeg o amgylch perimedr ei ardd yr un pryd*

Meddai Hefin Jones, Prifathro'r ysgol. 'Rhaid i mi ddiolch o galon iddyn nhw a'u rhieni am ymroi i gyflawni'r gweithgareddau gyda'r fath frwdfrydedd, ac mae wir wedi bod yn bleser i weld y plant yn uwchlwytho eu gwaith i ni gael eu gweld.'

Does dim golwg o'r sefyllfa bresennol yn dod i ben yn gyflym. Mae Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg, wedi awgrymu y bydd ysgolion yn ail-agor yn raddol ond dim ond pan fydd hi'n ddiogel i wneud hynny. Felly mae'n bur debygol y byddwn y parhau i weld gweithgareddau dysgu o bell am beth amser eto.

**Mae fideo Tomos i'w weld ar dudalen Weplyfr** Papur Pawb

## Cwis Tomos



1 2 3 4 5 6

Ydych chi'n adnabod y delweddau yma o Dal-y-bont (atebion ar waelod y dudalen)



7 8 9 10 11

*Atebion:*
*1 Y Lolfa, 2 Neuadd Goffa Tal-y-bont, 3 Capel Nasareth, 5 Capel Bethel, 4 Caffi gruff, 6 Y Blac, 7 Wal y Lolfa, 8 Y Fferyllfa, 9 Gareg Davmor, 10 Ysgol Tal-y-bont, 11 Eglwys Dewi Sant*

## Beth sy'n hedfan yn yr ardd?

# Iar Fach yr Haf neu Bili Pala?

Blasu gan ddefnyddio eu traed? Yn bwyta dim, ond yfed trwy gwelltyn naturiol? Mae Ieir Bach yr Haf yn greaduriaid rhyfeddol!

- Er mor fach a bregus eu golwg, mae rhai wedi hedfan dros y môr i gyrraedd ein blodau!
- Maent yn medru gweld lliwiau gwahanol i ni.
- Dim ond mewn tywydd braf maent yn hedfan…..cysgodi tra'n lawiog zzzzzzzzz
- Mae dant melys gan bili palod. Ar ôl blasu'r blodyn trwy eu traed (wow!) maent yn sugno neithdar (fel sirop) o'r blodyn trwy gwelltyn eu hunain o'r enw probosis.
- Mae rhai yn dodwy eu wyau ar ddanadl poethion AWWW!
- Blodau pinc a coch ydy hoff rhai pili palod yn ôl rhai.
- Maent yn helpu natur drwy cario paill o un blodyn i'r llall. Da iawn!
- Dim babanod yma! Mae'r bili pala yn cychwyn bywyd fel wy…wedyn lindys…wedyn crysalis ac o'r diwedd dyna bili pala hardd.

Os oes blodau yn yr ardd ac mae'n braf, yna edrychwch i weld os oes ieir fach yr haf o gwmpas. Dyma tair math welwn ni'n aml o gwmpas Tal-y-bont.

Rydyn ni'n cadw draw o ddanadl poethion, yn tydyn? Falle bod rhai yn tyfu yn gornel yr ardd. Wel, beth am fwyta danadl poethion i swper? Mae lindys y tair iar fach lliwgar i gyd yn bwydo ar ddanadl poethion! Mae'n bwysig felly cadw rhai danadl poethion i gadw'r pili palod yn hapus.

Mae lindys pili palod eraill angen gwahanol blanhigion i fwyta.

*Lisa Tomos*



*Dail poethion*

## Cystadleuaeth

Tynnwch ffotograff o ddwy iar fach yr haf gwahanol o gwmpas eich hardal. Sylwch o neithdar ba flodyn maent yn yfed.

**Gyrrwch eich lluniau** trwy ebost i Papur Pawb (ebost: golygydd@papurpawb.com)

**gan gynnwys eich enw a chyfeiriad**
gan gofio dweud pa flodau maent yn hoffi!

Bydd y beirniaid yn dewis y lluniau gorau a bydd gwobr arbennig i'r enillydd.
**Dyddiad cau 5 Mehefin**



*Mae patrwm fel llygaid mawr ar adain y **Mantell Paun (Peacock)** i ddychryn adar i ffwrdd.*



*Mae'r **Mantell Goch (Red Admiral)** yn hoffi yfed sudd o ffrwythau sydd wedi pydru ar ddiwedd yr Haf.*



*Dyma'r **Trilliw Bach (Small Tortoiseshell)** sydd i'w weld yn hel pryfaid eraill oddiar ei diriogaeth*

# Y Llew Du (Rhan 2)




*Y Patsyn Glas, Tal-y-bont, gyda'r Llew Du ar y dde, 1903*

**Dyma'r ail erthygl ar hanes y Llew Du, Tal-y-bont. Ymddangosodd yr erthygl gyntaf yn rhifyn Tachwedd ac mae cymaint o wybodaeth wedi dod i law bydd erthyglau pellach yn ymddangos o dro i dro. Ry ni'n ddiolchgar i Catrin Saunders-Jones am anfon ffeithiau difyr a lluniau am hanes y dafarn.**

Yn yr erthygl gyntaf (Tachwedd 2019) cyfeiriwyd at y ffaith mai fferm oedd y Llew Du yn wreiddiol a bod y ffermdy wedi'i ddefnyddio fel gwesty yn y 18fed ganrif ac efallai cyn hynny.

Roedd tir y fferm, tua 70 erw, yn eiddo i stâd Gogerddan, gydag aelodau teulu o'r enw Morgan yn denantiaid hyd at ganol y 19eg ganrif.

Erbyn y cyfnod hwnnw roedd Tal-y-bont wedi datblygu'n bentref sylweddol. Yn 1822 disgrifiodd y Parch David Rees, Llanelli, y pentref fel hyn:

'Tri neu bedwar o dai, ac addoldy Annibynnol bach, llwydaidd i gyd ar y llawr.'

Ond pan deithiodd yntau drwy'r pentref drachefn yn 1857, roedd wedi synnu at dwf Tal-y-bont:

'Synais yn rhyfedd wrth wedd gynyddfawr y lle hwn... Yn awr y mae yno bentref poblogaidd iawn ac yn cynyddu yn gyflym o hyd, a channoedd o drigolion yn perthyn i'r llaweithfa [ffatrïoedd gwlân] sydd yn y pentref, a'r mwyngloddiau cyfagos, a'r addoldy bychan gostyngedig wedi mynd yn fawr.'

Yn 1866 cyfeiriodd gohebydd i'r *Faner* hefyd at ddatblygiad y pentref:

'Trigianna oddeutu 800 o eneidiau yn Tal-y-bont, a'r rhan fwyaf yn weithgar yn y *factories* a'r gweithfeydd mŵn. Gwelsom lawer o bentrefydd yn ein bywyd mewn gwahanol fannau, ond nid ydym yn cofio i ni weled pentref â'r tai mor newydd, ac yn cael eu cadw mor lân â'r un dan sylw. Yr wyf yn credu fod y Talybontiaid yn sefyll yn uchel ar gyfrif eu glanweithdra. Y mae hyn yn glod nid bychan iddynt. Nid oes dim yn fwy ffïaidd yn ein golwg na gweled dynion yn byw mewn modd swrth a budr, fel y gwelir mewn llawer o fannau...'

Erbyn 1860 tafarnwr y Llew Du oedd James S. Lloyd ond bu yntau farw yn 1864 yn 43 oed. Olynwyd ef gan Evan Davies (1813-1883) a'i wraig Catherine (1815-1882). Evan a Catherine Davies oedd tad-cu a mam-gu E. O. Jones (1873-1915), y ffotograffydd a'r siopwr lleol.

Yn ystod ei gyfnod ef yn y Llew Du, ceir tystiolaeth bod gweithgareddau diwylliannol yn cael eu cynnal yno, yn ogystal â rhialtwch y ffeiriau niferus a gynhelid yn Nhal-y-bont. Yn Eisteddfod Nadolig Bethel 1913 cynigiwyd gwobr sylweddol am gasgliad o "Ganeuon Gwerin Tal-y-bont a genid yn yr ardal 50 mlynedd ynghynt." Yn 120 o dudalennau, ceir penillion ac alawon i'r caneuon oll. Ceir sylwadau ar waelod nifer o'r tudalennau e.e. '"Cân y clychau" (clywsom Owain Meirion a Dic Dywyll yn canu'r gân uchod mewn hwyl tua'r flwyddyn 1864. Byddent yn ei chanu fel deuawd), a "Mwyn yw myned tua Môn" ar yr alaw "Hufen Melyn" (chwaraeodd Jerry Bach Gogerddan, fel y gelwid ef, ar ei delyn, lawer ar yr alaw uchod yn nhafarndy y Llew Du, Tal-y-bont, pan oedd yn cartrefu yn Nhre' Taliesin, oddeutu 50 mlynedd yn ôl)."


Roedd Jeremeia Wood (Jeri Bach Gogerddan) yn ŵyr i Abram Wood, tad y sipsiwn Cymreig. Fe'i ganed yn 1778 a bu'n delynor Plas Gogerddan am 51 o flynyddoedd. Tua diwedd ei oes symudodd i fyw i Dre Taliesin ac yno y bu farw yng Ngorffennaf 1867 yn 89 oed, a'i gladdu ym mynwent Eglwys Llangynfelyn ar 27 Gorffennaf. Roedd llun telyn ar ei garreg fedd.

*Gwyn Jenkins a Hefin Llwyd*






# Colofn Ben Lake



Mae'n anodd iawn canfod y geiriau i ddisgrifio'r argyfwng presennol sy'n wynebu cymunedau, teuluoedd ac unigolion ar draws Ceredigion, Cymru a ledled y byd. Mae disgrifio'r amgylchiadau presennol yn 'anghyffredin' yn ymddangos mor annigonol rywsut. Beth bynnag fo'ch barn gwleidyddol, nawr yw'r amser i roi gwleidyddiaeth pleidiol nail ochr ac i bawb ddod at ei gilydd i gefnogi ymdrechion y Gwasanaeth Iechyd a'r sector cyhoeddus i amddiffyn iechyd a lles holl drigolion ein cymunedau.

A dyna'n union beth dwi wedi'i weld yn digwydd ledled Ceredigion dros yr wythnosau diwethaf. Mae degau o grwpiau cymunedol gwirfoddol wedi ymsefydlu'n gwbl organig ar draws y sir er mwyn rhoi cefnogaeth, cymorth ymarferol a chysur i unigolion mewn angen.

Mae busnesau a mudiadau wedi gorfod addasu eu gwasanaethau dros nos er mwyn cwrdd ag anghenion eu cwsmeriaid a'u defnyddwyr. Mae papurau bro'r sir hwythau wedi gorfod ymateb i'r argyfwng, a hynny drwy gynhyrchu a chyhoeddi rhifynnau digidol ar y we, a thrwy wneud hynny,sicrhau bod pobl yn gallu cadw cysylltiad gyda'u cymdogion a'u cymdogaethau – rhywbeth sydd mor eithriadol o bwysig yn y cyfnod tywyll hwn.

Yn bennaf oll, rhaid diolch i'r gweithwyr allweddol hynny sy'n gweithio ar y rheng flaen – ein gweithwyr iechyd, gofalwyr, gweithwyr yn y sector cyhoeddus, gweithwyr mewn siopau hanfodol, ffermwyr, milfeddygon, gyrrwyr bysys a cherbydau cludo nwyddau, plymwyr, trydanwyr a gweithwyr cynnal a chadw hanfodol – diolch am ofalu am ein iechyd, ein lles a'n diogelwch ni oll.

Mae'r modd y mae pobl Ceredgion wedi ymateb i'r argyfwng yn destament i'n gallu ni fel Cymry i gydweithio, i gefnogi, i addasu ac i wneud hyn oll mewn ffordd gadarnhaol. Ry'n ni gyd wedi gorfod tynnu at ein gilydd, wedi gorfod addasu ein patrymau byw, wedi gorfod estyn llaw i helpu eraill, wedi gorfod dysgu gwneud pethau'n mewn ffyrdd gwahanol, ac wedi dysgu gwerthfawrogi'r pethau hynny ro'n ni'n eu cymryd mor ganiataol o'r blaen.

Os cewch gyfle, gwyliwch a gwrandewch ar 'Mae', cerdd gan Mererid Hopwood sy'n ymateb i'r argyfwng presennol ac sy'n ein hatgoffa ni oll bod 'amser gwell i ddod':
https://www.bbc.co.uk/iplayer/episode/p088v0z0/mae

Diolch o waelod calon i bawb sy'n gweithio er lles ein cymunedau drwy'r argyfwng hwn. Cadwch yn ddiogel, un ac oll.

# Y Gair Olaf



'Llonydd gorffenedig' yw llonydd y lôn bost drwy Dre Taliesin y dyddiau yma. Ar adegau mae'r jac-y-dos yn strytian yn eofn ar hyd canol y ffordd heb orfod poeni am y traffig di-baid sy'n arfer llifo drwy'r pentre o fore gwyn tan nos. Mae'r tawelwch aruthrol yma, yn eironig ddigon yng nghyfnod yr ymbellhau gorfodol, yn hwyluso cyfathrebu rhwng y trigolion. Er bod pawb yma i'w weld yn hollol ufudd i reolau'r cyfyngiadau symud, mae'n haws gweiddi 'helô' a 'popeth yn iawn?' ar rywun yr ochr draw i'r ffordd na phan fydd y traffig yn taranu drwy'r lle neu'n ei gloi'n stond.

Felly bob nos Iau, golygfa amheuthun yw gweld pawb yn dod i ben drws i gymeradwyo gweithwyr y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, gweithred syml sy'n uno cymuned sy'n ddigon cymysgryw fel arall.

A da o beth yw cofio'r bobl sy'n cadw ein byd i droi – merched a dynion y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau brys, y rhai sydd wedi gweithio 16 diwrnod yn ddi-dor o 7 y bore hyd 9 yr hwyr i addasu adeiladau'n ysbytai maes, bois y bins, y postmyn, staff y siopau bwyd, gyrwyr bysus, y gweithwyr dŵr a thrydan, amaethwyr – mae'r rhestr yn hirfaith. Yn aml iawn, y bobl hyn yw'r rhai sy'n cael y fargen salaf o ran cyflog ac amodau gwaith ac at ei gilydd, yn cael eu cymryd yn ganiataol gan y rhai sy'n elwa fwya yn y byd. Dwn i'm sut mae ambell wladweinydd a gwleidydd yn byw yn ei groen o gymharu ei ddatganiadau cymysglyd a gwamal gyda dyfalbarhad digwyno'r gweithwyr allweddol – y bobl gyffredin anghyffredin.

*Martin Dafis*


**Garej Davmor**

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y gareg gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont




Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu
Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol
Martin Davis

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760



# COVID-19 – Holiadur

Sut mae trigolion ardal Papur Pawb yn ymdopi yn ystod y cyfnod heriol hwn? Dyma argraffiadau gan 3 ohonynt.



*Gerwyn Jones*



*Rhian Evans*



*Oisín Lludd Pennant*

## Sut mae eich bywyd wedi newid yn ystod yr wythnosau diwethaf?

**Gerwyn:** Mae popeth wedi digwydd mor sydyn mae'n anodd ystyried a meddwl mewn gwirionedd sut a beth fydd effaith a'r newidiadau sydd i ddod yn sgil COVID-19 yn y tymor byr, canolig a hir.

Yn bendant dwi wedi gweld mwy o Non a'r merched sydd wedi bod yn grêt. Ar y llaw arall dwi yn colli cymdeithasu gan gynnwys cerdded a seiclo gyda ffrindiau.

Wedi dweud hyn rhaid rhoi pethe yn ei gyd-destun a chofio pa mor frawychus yw'r sefyllfa i gymaint ar draws y byd a pa mor ffodus ydyn ni, hyd yn hyn, yn yr ardal hon.

**Rhian:** Mae pethau wedi bod yn wahanol iawn ond eto yn ôl yr arfer yn nhu hwnt o brysur. Dwi wedi newid un math o brysurdeb am un arall a dweud y gwir! Dechreuodd y cyfnod o aros adre yng nghanol yr wyna ac roedd rhaid jyglo gweithio yn llawn amser i'r Llyfrgell Gen a helpu adre. Mi o ni ar y pryd yn llythrennol yn mynd o garthu pen a chario dŵr i'r defaid yn y sied, i redeg i'r tŷ ar gyfer mynychu cyfarfod dros y we! O fod adre yn ystod y dydd mae rhywun wedi bod ar gael i helpu mwy o ran y gwaith ffarm. Dwi heb weld Dylan y cariad ers bron i wyth wythnos erbyn hyn ac mae hynny di bod yn rhyfedd o anodd. Mae bod adre gyda'r nos wedi bod yn brofiad gwahanol iawn i fi. Fe fyddwn ni fel arfer adeg yma o'r flwyddyn yn brysur yn ymarfer drama newydd, yn helpu aelodau'r C.FF.I wrth iddynt baratoi am y Rali ac yn cadeirio neu fynychu cant a mil o gyfarfodydd amrywiol. Rwy'n gweld eisiau'r bwrlwm cymdeithasol hwnnw yn fawr.

**Oisín:** Mae bywyd wedi bod yn anodd i bawb, gan gynnwys ein teulu ni. Ond gan ein bod yn fwy gwledig mae gyda ni le i allu cario ymlaen i fyw bywyd mor normal ag sy'n bosib. Mae ysgol wedi bod yn anodd, yn gweithio gartref ond rydym wedi cael digon o waith i fynd trwy'r diwrnod. Mae cymdeithasu wedi bod yn anodd hefyd, gan na allwn ni eistedd i lawr gydag unrhyw un. Felly mae nifer o'r teulu yma wedi defnyddio galwadau fideo i gadw mewn cysylltiad gyda ffrindiau a theulu, er nad ydyn ni wedi ei gweld nhw wyneb yn wyneb ers oesoedd. Mae teithio wedi bod yn brin; yr unig adeg byddwn yn defnyddio'r car yw i siopa am fwyd. Dwi heb adael Bont-goch am fisoedd. Ar y cyfan, rydyn ni fel teulu wedi bod yn ffodus iawn i allu byw yng nghefn gwlad, fel ein bod yn dal i allu fynd i redeg yn aml. Mae pawb ym Mont-goch wedi bod yn wych.

## Beth yw'r heriau mwyaf wedi bod i chi?

**Gerwyn:** I fod yn deg dwi'n credu fod y sefyllfa o fod mewn cyfyngle am gyhyd gyda fi wedi bod yn llawer fwy o her i Non a'r merched, druan â nhw!

**Rhian:** Mae rhywun wedi gorfod dod i arfer â disgyblaeth gweithio o adref a dysgu ffyrdd gwahanol iawn o weithio. Fel cynefino gyda gweithio ar Microsoft Teams a threfnu a chynnal cyfarfodydd rhithiol. Mae'n syndod y sgiliau newydd all rhywun eu dysgu'n sydyn pan mae angen addasu ar frys. Mae'n rhaid cyfaddef fod coginio i bedwar trwy'r dydd bod dydd wedi bod yn ddigon heriol hefyd!

**Oisín:** Yr heriau mwyaf sydd wedi fy ngwynebu i yw methu cwrdd gyda neb, i allu cymdeithasu gyda nhw wyneb yn wyneb. Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn yn rai o banicio, felly nid oes wedi bod llawer o amser am lawenydd. Bob tro mae Mam yn dod yn ôl i'r tŷ ar ôl bod yn siopa yn y dref, mae y siawns ei bod wedi dal yr afiechyd yma sydd wedi rhwygo teuluoedd yn hanner.

## Oes yna bethau positif wedi dod o hyn i chi?


**Gerwyn:** Dwi wedi darganfod fod gennyf dalent annisgwyl mewn trin gwallt, gweler y llun!

Yn bendant mae wedi bod yn gyfle, gan ufuddhau â'r protocolau pellter cymdeithasu, i weld fwy o'r teulu boed hynny mewn person neu drwy dechnoleg.


**Rhian:** Fel rhywun oedd yn rhuthro i bob man a cheisio bod mewn tri lle gwahanol ar yr un pryd mae'n rhaid cyfaddef mod i wedi mwynhau cael fy nghaethiwo adref mewn lot o ffyrdd. Mae wedi bod yn braf hefyd treulio mwy o amser gyda fy rhieni a Dyfed, wel… y rhan fwyaf o'r amser!

**Oisín:** Er yr amser gwael, mae rhai pethau positif wedi dod allan o'r sefyllfa yma. Mae ein pentref ni wastad wedi bod yn glos, ond mae fel tasai wedi closio mwy, gyda cymdogion yn helpu eu gilydd trwy'r amser caled yma (tra'n cadw eu pellter hefyd). Yn ogystal, mae wedi bod yn neis gallu treulio amser gyda'r teulu, mynd i gerdded o gwmpas yr ardal lle rydyn yn byw a dod yn agosach i'n gilydd.


Gobeithio fod pawb yn aros yn saff yn yr adeg caled yma, a gallwn fynd yn ôl i normal. Diolch i'r nyrsys a'r doctoriaid sy'n helpu i drin y rhai sy'n sal, rydych yn gwneud gwaith gwych.



# Ardal Papur Pawb yn dweud 'Diolch' i Weithwyr Allweddol


















# Dydd a Nos

**Dyma'r bennod olaf ond un o stori dditectif gyffrous Geraint Evans. Ydi'r llofrudd yng nghartref gofal Brynawelon?**

"Brwydr seicolegol" dywedodd Gareth, "dyna'r berthynas frwnt rhwng y nyrs a Meurig Rhys. Benson yn mabwysiadu cyfres o driciau i iselhau, colli cof, a dinistrio callineb. Troi nos yn ddydd, gadael negeseuon bygythiol, bwydo cyffur, clymu wrth alcohol ac yn llythrennol cau'r drws ar y byd. Rheina yn hysbys, at hynny tebygol fod Benson yn symud a chuddio pethau a chyflwyno ffeithiau ffals, yn arbennig am amser.  Rhys yn llwyr o dan bawen ei garcharor ac yn y pendraw yn cael ei lofruddio, cam terfynol y frwydr."

Cododd Teri y pwynt sylfaenol. "Pam Gar, unwaith eto, beth yw'r motif? Nid arian, mae'r ffortiwn yn saff yn y banc a dim tystiolaeth fod Benson er ei diawlineb wedi cyffwrdd â cheiniog o gelc yr Athro. Rhyw, y cyffur mewn ffordd gwyrdroëdig, yn creu chwant a'r chwarae'n troi'n chwerw? Gwrthwyneb i hwnna, casineb. Am beth? Dial, eto am beth? Neu, does na ddim motif? Benson yn nyts, yn lladd oherwydd bod hi'n hoffi lladd. Os felly mae'n bwysicach nag erioed i ffeindio'r nyt-ces i atal ail fwrdwr."

"Cytuno. Reit, y cam nesaf. Dau ar hugain o gartrefi gofal yng Ngheredigion. Ymweld â phob un i chwilio os oes rhywun yn debyg i Benson yn gyflogedig neu wedi'i chyflogi yn y gorffennol. Gei di gyfrifoldeb am ogledd y sir."

Yn llesg a blinedig dringodd Teri y stepiau i Brynawelon, y degfed cartref ar ei rhestr. Plasty bychan mewn gwirionedd ac wedi gweld dyddiau gwell. Roedd yr enw yn hynod o addas gan fod y gwynt yn sgubo ar hyd Cwm Rheidol ac ar ei anterth ar riniog y lle. Camodd at y fynedfa a chanu'r gloch. Bu rhaid aros am ychydig ac yna fe'i cyfarchwyd gan wraig ifanc, a oedd yn ôl ei hacen yn hanu o ddwyrain Ewrop.

" Yes please, I can help?'

Esboniodd Teri bwrpas yr alwad, caewyd y drws ac fe'i harweiniwyd ar draws cyntedd eang. Fel y gellid disgwyl roedd y lle'n boeth iawn a'r gwahaniaeth rhwng y dymheredd tu mewn a thu allan yn sylweddol. Mewn stafell ar yr ochr dde eisteddai rhai o ddeiliaid Brynawelon mewn cylch o gadeiriau esmwyth, un neu ddau yn araf symud tudalennau'r papur dyddiol ac yn y cornel pella' roedd teledu enfawr gyda'r sain yn uchel. Trodd pawb i syllu'n chwilfrydig ar Teri, yr ymweliad mae'n amlwg, yn uchafbwynt eu diwrnod tra'n aros am y baned a'r bocs bisgedi.

"Please, to follow."  Arweiniodd y wraig y ffordd i swyddfa fechan yng nghefn yr adeilad. "I am Lena Nowak the matron and manager. You are saying that you search for a Nurse Benson who may have worked here. Wait please, I will look for you."

Estynnodd y metron am ffeil, astudio un tudalen cyn cyhoeddi'n bendant. "There is no person, nobody. I am sorry I cannot help."

Ar yr eiliad honno clywyd llais yn galw am gymorth a gadawodd Lena Nowak ar frys. Sbeciodd Teri ar y dudalen a darllen y frawddeg *CB, final warning, leaves suddenly*. Gwnaeth nodyn o'r cyfeiriad a rhuthro at ei char.

Severnside, yr erchylltra o dref newydd a roddwyd yn anrheg gan un o gyn- lywodraethau Llafur i Ganolbarth Cymru. Y ffatrïoedd erbyn hyn mor wag ag addewidion y gwleidyddion a'r lle yn bodoli fel maestref i Amwythig a Telford. Gwasgodd Teri botwm y *sat-nav* a gweld bod stad Vaynor Heights ar yr ochr chwith i'r afon ag Olford Road ym mhen uchaf y stad. Parciodd ychydig cyn rhif 17 – dim pwynt tynnu sylw. Be' nesaf? Gwyddai y cai gerydd am fentro ar gyfyl llofrudd heb sicrhau cymorth wrth gefn a gwyddai y cai yr un cerydd am y gost o alw sgwad allan ar ddim mwy na hynsh mai CB yn ffeil y cartref nyrsio oedd Benson nyrs Penlan. Brawd mogi yw tagu.

Nid oedd arwydd o fywyd yn y teras digalon. Cerddodd Teri at y tŷ, heibio y sgrap o ardd a gweld bod y drws ffrynt yn gilagored. A'i holl synhwyrau'n effro gwthiodd y drws yn ofalus a chamu i 'stafell a oedd yn lolfa a chegin – ymgais aflwyddiannus i greu syniad o ofod. Roedd yna dawch gref o sigarennau rhad a ffrio gyda staenau y papur wal yn dystion i'r smocio a'r coginio. Llifai haul olaf y prynhawn drwy'r ffenest i oleuo haen o ddwst ar y dodrefn treuliedig. Neidiodd wrth glywed y trydar a symud i edrych ar y caets a'r caneri yn canu ei gân a swniai fel rheffyn o regfeydd. Aeth drwyddo i'r gegin a sylwi ar y sosban o ddŵr yn ffrwtian ar y stôf. Rhywun neu rywrai yn agos felly. A'i nerfau ar ras croesodd i ben blaen y tŷ ac roedd ar fin bodio'r papurach ar y bwrdd isel pan glywodd y caneri'n canu 'hello pretty boy.'

"Ca' dy geg Joey, y satan bach!"

Mewn boddfa o chwys oer trodd Teri ar ei hechel i wynebu'r person a safai wrth y drws cefn. Gwelodd y gwallt brown wedi'i dorri'n gwta, y dalcen lydan, y rhimyn caled o wefus a'r stydiau clust. Ar un edrychiad roedd y pictiwr yn gwbl gyflawn ac ar yr ail edrychiad yn gwbl anghyflawn.

"A dyma'r Moch wedi cyrraedd o'r diwedd. Na, un hwch wedi glanio i fynd â fi i'r jêl.  Un hwch ar ei phen ei hun yn y twlc, neb i gadw cwmni, neb i amddiffyn yr hwch fach unig. Peryg bywyd."

'Hello pretty boy'.

"Ca' dy geg y cythrel!" Mewn ffit o gynddaredd tarodd y person yn erbyn y caets a'i fwrw i'r llawr i achosi'r caneri i sgrechian nerth ei ben. Daeth yr unigolyn ymlaen a rhythodd Teri ar lafn finiog y gyllell yn sgleinio yn yr haul. "Mynd â fi i'r jêl? Ti a phwy arall? Wedi lladd unwaith, ail fwrdwr yn bleser."

Camodd Teri yn nes a sefyll wrth y stôf. Wrth i'r gyllell agosáu taflodd y sosban o ddŵr berwedig ato a phlannu cic nerthol rhwng ei goesau.

*hawlfraint ©Geraint Evans*

**Gwnewch yn siwr o'ch copi o rifyn Mehefin er mwyn darllen y bennod olaf.**



# Cletwr



*Y parti penblwydd yn 5 oed*

C'lanmai hapus i bawb! Oeddech chi i gyd allan yn canu carolau? Rhywbeth arall i ni ei ddathlu adeg yma'r flwyddyn yw pen-blwydd Cletwr. Credwch neu beidio mae saith mlynedd wedi mynd heibio nawr ers i ddrysau'r siop gymunedol newydd "Siop Cynfelyn" agor yn yr hen adeilad. Ac mae hi wedi bod yn gyfnod diddorol tu hwnt - y dyddiau yma yn enwedig.

Mae'n amlwg bod trigolion Ceredigion wedi bod yn lwcus hyd yn hyn i osgoi'r gwaethaf. Rydyn ni'n fyw ac yn iach, er bod rhai cyfyngiadau ar ein bywydau bob dydd yn ein poeni ni. Ond, er hynny, mae bywyd yn parhau - mae'r caeau yn llawn ŵyn bach, mae clychau'r gog ymhobman, ac mae dail newydd ar y coed. Ac am dywydd heulog braf!

Trwy hyn i gyd mae drysau Cletwr wedi bod ar agor, gyda chriw bach o staff (ac ychydig o wirfoddolwyr) yn sicrhau ein bod yn gallu prynu bwyd (ac ychydig ddiodydd cadarn) drwy'r holl drybini. Mae Karen a'i thîm wedi bod yn ymestyn y dewis sydd ar gael yn y siop - mwy o ffrwythau a llysiau ffres (unrhyw un eisiau melon neu binafal?), a chyflenad o gig gan Rob Rattray a Chigydd Bow Street. Mae opsiwn i chi anfon archeb ac yna dod i'w gasglu heb ddod i mewn i'r siop. Rydym hefyd yn cynnig gwasanaeth delifro i'r holl ardal rhwng Tal-y-bont ac Eglwys Fach. Mae'r siop ar agor ichi alw i mewn fel arfer, ond dim ond rhwng 9-12 a 3-5, Llun-Sadwrn.

Rydym wedi sylwi bod llawer mwy o bobl yn siopa yn Cletwr, a nifer sylweddol yn gwneud eu siopa wythnosol yma - osgoi'r angen i fynd i'r archfarchnadoedd mawr, gyda'u ciwiau hir! Mae Cletwr yn gallu cyflenwi bron popeth sydd eisiau arnoch - gan gynnwys papur toiled!

Mae pobl a grwpiau eraill wedi bod yn brysur, yn ceisio cadw cysylltiad rhyngom ni yn fyw ac yn gryf. Mae nifer o ddigwyddiadau wedi cael eu trefnu drwy Zoom - gan gynnwys sesiyn 'Open Mic' ar 30ain o Ebrill, yr un noson roedd 'Sleis' yn y maes parcio yn pobi pitsa-i-fynd. Mae'r grŵp Dal Ati yn cwrdd yn wythnosol nawr - braf oedd gweld Medi James yn ein plith ni yn ddiweddar. Amser gofyn cwestiynau i arddwyr? Mae'r cyfan yn bosibl.

Mae manylion o ddigwyddiadau sydd ar y gweill ar y wefan - mae'n syniad da ichi danysgrifio am ein e-bost beunyddiol i weld beth sydd wedi cyrraedd y siop, gan gynnwys cynigion arbennig. Ac os ydych angen deunydd darllen – mae Llyfrgell Cymraeg Cletwr dal ar agor ac mae nifer o lyfrau ar werth.

Ydych chi'n cofio'r parti pen-blwydd yn 5 oed gawson ni yn y maes parcio? Penderfynon ni bryd hynny na fydden ni byth yn trefnu un arall - llawer gormod o waith! Ond unwaith rydyn ni'n gallu ail-agor yn llawn, ac yn gallu dod o fewn dwy fetr i'n gilydd, rhaid i ni gael y parti mwyaf yn hanes yr ardal - neu o leiaf y 'cwtsh grŵp' mwyaf, i ddiolch i'r rhai sydd wedi gweithio drwy bopeth i gadw ysbryd ein cymuned ar dir y byw! Diolch o galon iddyn nhw oll.
*Nigel Callaghan*

# Ebrill heb ei ail

Ebrill heb ei ail o bosib ond nid Ebrill heb haul! Ble'r aeth cawodydd Ebrill sy' fod i ddod â blodau Mai, yn ôl y dywediad Saesneg?

Un i holi ynglŷn â materion y tywydd yw Howard Ovens, Frondirion sydd ers bron i 60 o flynyddoedd yn cofnodi'r tymheredd a'r glaw bob bore am ddeg o'r gloch. Yn anffodus nid yw'n gallu nodi sawl awr o haul geir yn feunyddiol ond does dim angen ei holi, rydyn ni gyd yn gwybod ei fod yn gyfnod eithriadol o heulog a chynnes.

A'r ffeithiau moel am Ebrill – y diwrnod poethaf oedd 10 Ebrill pan oedd i'n 23°C; roedd 25 diwrnod o haul yn y mis (heb gyfri 9 diwrnod ym mis Mawrth); y diwrnod gwlypaf oedd diwrnod olaf Ebrill gyda 6.1ml (½") o law; roedd arlliw o law ar 10 a 19 Ebrill gyda chyfanswm y glaw am y mis yn 13ml (rhyw 1"). Doedd dim digon o law yn y mis i fod o ddefnydd i blanhigion. Dechreuodd y sychder ar 23 Mawrth a gorffen ar 29 Ebrill. Nid yw'n bosib dweud taw mis Ebrill 2020 oedd y sychaf erioed ond yn ôl pob tebyg mae'n wir.

*Un wennol ni wna wanwyn* ond a yw ein gwanwyn ni wedi dod a mynd eisoes?

Mae Howard yn galw ei hunan yn fforestydd, felly roedd yn ddifyr i'w holi am gyflwr ein coed wedi cyfnod hir, eithriadol gwlyb a gwyntog y gaeaf. Dywed bod gwreiddiau'r coed yn llacio pan fo'r pridd yn socian a'r gwynt yn gryf. Maen nhw'n dioddef eto pan fo sychder yn dilyn a dyna'r hyn ddigwyddodd yn ddiweddar. Yn ystod y cyfnod o ddeilio mae angen dŵr ar goed ond sychder gafwyd mis diwethaf. Cyfnod o sychder wedi cyfnod o law mawr, dyna patrwm ein tywydd ers blynyddoedd a dyma sydd wedi effeithio'n andwyol ar goed ddengys.

*RH*



*Gweler hen Stephenson's Frame Howard. Mae un newydd sbon ar y ffordd, yn cael ei adeiladu gan Barry ym Mryngryffty*

# Ffotomarathon

Cafodd dwy ffotograffydd amatur o ardal Papur Pawb sylw gan feirniad craff Ffotomarathon Aberystwyth yn ystod eu hymgyrch ar-lein eleni a gynhaliwyd dros penwythnos y Pasg. Dyma ffrwyth ei llafur a pwt gan y ddwy. Wech i dudalen Facebook ar FfotoAber am fwy o wybodaeth.



### Hedydd Beechey

Wnes i fwynhau edrych am bethau i'w cynnwys mewn llun, ac roeddwn i'n meddwl bod e'n hwyl i grwydro o gwmpas ein fferm. Wnes i ddewis y llun i'r thema gyntaf achos o'n i'n hoffi prydferthwch boncyff y goeden, a melyn yr eithin tu ôl iddo. O'n i'n hoffi'r eithin wnes i ddewis i'r ail thema achos o'n i'n hoffi'r 'spikes' gwyrdd yn pigo trwy'r melyn. Dewisais gêr y beic achos dwi'n hoffi beicio yn fawr iawn. Yr un mwyaf anodd i wneud oedd yr adlewyrchiad achos doedd dim llawer o bethau yn adlewyrchu. Wnes i fwynhau'r fotomarathon yn fawr iawn ac roeddwn yn hapus dros ben i dderbyn gwobr o docyn llyfr! Diolch yn fawr iawn Ffoto Aber!



### Lois Jones

Nes i fynd ati i dynnu cyfres o luniau fyddai'n edrych yn dda gyda'u gilydd. Roedd gwneud y ffotomarathon o'r tŷ yn syniad grêt! Diolch i'r criw am drefnu!










# Gwnïo gwisg amddiffyn i grŵp gwnïo Bronglais

Trwy ffrindiau yng Nghaeredin a Chaerdydd y clywodd Jane BAILEY gyntaf am broject 'For the Love of Scrubs'. Sylweddolodd Jane fod galw yn lleol hefyd am wisg amddiffyn, ac ar ôl ymuno â grŵp oedd eisoes wedi'i sefydlu yn yr ardal, fe aeth ati i droi un o'i stafelloedd yn stafell wnïo.

Dim ond gwisgoedd amddiffyn wedi'u gwneud o ddefnydd arbennnig ac o gynllun arbennig y caiff ysbytai eu derbyn, ond gellir gwneud sachau dillad brwnt, capiau a bandiau gwallt o hen ddefnydd sydd wedi bod yn llechu'n y llofft ers tro!

Y cam cyntaf oedd torri o gwmpas patrwm ar ddarnau papur A4 wedi'u cysylltu â tâp selo. Penderfynodd Jane y byddai'n werth copïo'r rhain ar bapur gwnïo (oedd hefyd yn llechu'n y llofft ers tro). Ar ôl darllen y cyfarwyddiadau – droeon – roedd hi'n barod. Mae'n debyg ei bod wedi annog cymaint o bobl i wylio'r fideos ar YouTube sy'n dangos sut i dorri'r defnydd o gwmpas y gwddf fel bod yr ystadegau gwylio wedi cynyddu'n aruthrol. Pan oedd popeth yn mynd yn dda ac yn edrych yn obeithiol, fe ddechreuodd gael trafferth ofnadwy â'r peiriant pwytho anwadal. Er i hyn arafu'r gwaith cynhyrchu am gyfnod, daeth pethau yn ôl i drefn gydag amser. Y canlyniad yw bod dwy set o wisgoedd amddiffyn a nifer o gapiau a sachau yn barod i gael eu casglu/dosbarthu. Gweler y ffotograff.



Mae grŵp Bronglais yn arwain tîm o bobl sy'n gwneud gwaith gweinyddu, cydlynu, prynu defnydd (wethiau wedi'i dorri'n barod) a'i ddosbarthu, casglu eitemau gorffenedig a'u cludo i'r ysbyty. Ar ben hyn, mae'r tîm gweinyddol ac aelodau eraill o'r grŵp wedi bod wrth law i roi cyngor ardderchog. Mae croeso i aelodau newydd. Does dim rhaid i chi allu gwnïo. Mae croeso hefyd i gyfraniadau – boed yn ddefnydd i wneud sachau a chapiau, neu'n arian drwy'r dudalen Justgiving.

Ymhlith yr aelodau eraill o Dal-y-bont mae Claire Fowler. Mae Claire fel arfer yn brysur gyda'i busnes 'Jones & Ginger', sy'n defnyddio defnyddiau wedi'u hailgylchu i greu nwyddau wedi'u teilwra'n arbennig i'r cwsmer, ond mae hi wedi rhoi hwnnw o'r neilltu am y tro i helpu gyda'r project hwn. Mae Jenny Fothergill, Anne Ovens a'i merch, Helen, ymhlith y criw sy'n gwnïo ar ran grŵp Machynlleth.


Am fwy o wybodaeth ewch i dudalen Facebook *Scrubs for Bronglais.*

# Gwyliau i'w chofio?

Profiad ymlaciedig i'w fwynhau yw gwyliau sgïo i Su James a Dai Dowsett, Maeyfelin fel arfer, ond nid dyna'r ddigwyddiad eleni, wrth i glefyd COVID-19 achosi problem difrifol i deithwyr. Dyma dyddiadur Dai a Su.

**Ionawr:** Taith sgïo mis Mawrth wedi bwcio. Les Arcs yn Ffrainc. Edrych ymlaen!
**Mawrth 5:** Cwmni Flybe yn mynd i'r wal. Bydd e'n bosib i gwmni gwyliau Inghams ail-drefnu ehediad ymhen wythnos a hanner?
A beth am y salwch newydd coronafeirws sy' wedi cyrraedd yr Eidal yn ddiweddar?
**Mawrth 9:** Ehediad wedi ail-drefnu, ond o Fryste yn lle Caerdydd, neu dewis o ganslo. Ond mae'r eira yn ddwfn, y tywydd yn ardderchog yn yr Alpau, a mae'r canolfannau sgïo Ffrengig yn llawn hyder: dim problemau gyda'r feirws. 'Dyn ni'n mynd!
**Mawrth 13:** Teithio i westy ger maes awyr Bryste.
**Mawrth 14:** Ehediad cynnar i Genefa, bws i Les Arcs. Casglu offer sgïo, siopa am fwyd i rai dyddiau. Tua amser swper, clywed bydd dim sgïo yn Ffrainc o'r bore wedyn. Mae'r canolfannau i gyd yn cau. Dim sgïo.
**Mawrth 15:** Diwrnod braf iawn, ond yn dawel iawn: mae'r caffis a'r bariau a'r bwytai ar gau. Archfarchnad bach ar agor, ond mae digon o fwyd 'da ni beth bynnag... 'Dyn ni'n darllen yn yr haul, mynd am dro bach, bwyta'n dda ar ein balconi ni. Ond sut ewn ni adre? A ble i gysgu ar ôl i'r llety gau drenydd? Galwad ffôn o Inghams yn y diwedd: 'dyn ni'n gadael fory.
**Mawrth 16:** Codi'n gynnar iawn. Bws i Grenoble, ehediad i Fanceinion, bws i Fryste, casglu'r car a gyrru nôl i Dal-y-bont. Diwrnod hir iawn.

Aros adre am wythnos a hanner wedyn – pwy â ŵyr os 'dyn ni wedi dod nôl â'r coronafeirws?
**Nawr:** Popeth yn iawn i ni: ddim yn sâl, a heb golli dim ond wythnos o sgïo. Pobl y canolfannau sgïo, pobl y cwmnïau gwyliau ac yn y blaen – mae nhw wedi colli swyddi yn sydyn iawn, a chartrefi i rai. Dyn ni'n ddiolchgar am fod mor lwcus…
*Su James a Dai Dowsett*



# Ydych chi'n hoffi darllen?

Ydych chi'n gweld eisiau medru pigo i mewn i'ch llyfrgell neu siop lyfrau leol er mwyn dewis amryiwaeth o lyfrau neu gylchgronau i'ch diddanu o ganlyniad i'r cyfyngiadau presennol? Ydych chi'n berchen ar gyfrifiadur, tabled neu ffôn clyfar? Wel mae gan Wasanaeth Llyfrgell Ceredigion yr ateb perffaith ar eich cyfer er mwyn sicrhau eich bod yn dal i fedru dwli ar ddarllen yn ystod y cyfnod cythryblus hwn.

Os ewch i safle gwe **Llyfrgell Ceredigion** medrwch gael mynediad i filoedd o e-lyfrau, e-gylchgronau a llyfrau llafar trwy apiau **BorrowBox**, **RBDigital** ac **uLIBRARY** – a'r cyfan yn rhad ac am ddim, wrth gwrs. Dim ond eisiau dyfais electronig addas (megis cyfrifiadur, ffôn clyfar neu dabled Apple neu android), eich rhif cerdyn llyfrgell a'ch rhif pin, a byddwch yn barod i ddechrau arni. Peidiwch â phoeni os nad ydych yn aelod o'r llyfrgell eto, dim ond cysylltu â'r Gwasanaeth Llyfrgell ar llyfrgell.library@ceredigion.gov.uk a gallwn drefnu eich bod yn dod yn aelod o'r llyfrgell o fewn ychydig ddyddiau i wneud cais.

Felly, beth yw'r adnoddau sydd gan y Llyfrgell i'w gynnig i chi? Mae ap **BorrowBox** yn cynnig amrywiaeth helaeth o e-lyfrau a llyfrau sain yn y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer plant ac oedolion. Ymhlith y teitlau i blant ceir *Pentre Saith* (Catrin Elen), *Haciwr* (Hywel Griffiths), a *Prism* (Manon Steffan Ros), tra bo *Pam?* (Dana Edwards), *Y Traeth* (Haf Llewelyn) a *Llyfr Glas Nebo* (Manon Steffan Ros) ymhlith y dewis i ddarllenwyr hŷn. Yn rhan o'r ddarpariaeth o lyfrau sain Cymraeg mae *Saith Oes Efa* (Lleucu Roberts), *Cai* (Eurig Salisbury) a *Y Sw* (Tudur Owen) ar gyfer oedolion, a *Na Nel* (Meleri Wyn James), *Maes y Mês* (Nia Gruffydd) a *Hufen Afiach* (Meilyr Siôn) i blant. Cofiwch fod **BorrowBox** hefyd yn darparu rhychwant eang iawn o e-lyfrau a llyfrau sain gan awduron enwog Saesneg, ar gyfer plant ac oedolion. Gallwch fenthyca hyd at 10 e-lyfr a 10 llyfr sain ar y tro, ac os nad yw'r e-lyfr ar gael gallwch wneud cais amdano, gan roi'ch enw i lawr ar y rhestr aros am y llyfr hwnnw.

Cylchgronau, comics ac e-lyfrau yw prif ddarpariaeth **RBDigital**, gyda'r ap hwn yn cynnwys rhai llyfrau sain hefyd. Cylchgronau Saesneg yw'r mwyafrif ar y safle, ac ymhlith y teitlau amrywiol sydd ar gael mae teitlau poblogaidd megis *Good Housekeeping*, *The Radio Times*, *National Geographic*, *The New Scientist*, *BBC Gardener's World* a *Men's Health*. Medrwch lawrlwytho hen rifynnau yn ogystal â'r rhifynnau mwyaf cyfredol o nifer o'r teitlau. Mae'n braf nodi bod darpariaeth Gymraeg hefyd ar yr ap erbyn hyn, gyda *Y Wawr*, *Barddas* a chylchgrawn *Cara* bellach ar gael i oedolion, yn ogystal â chylchgrawn *Mellten* i'r plant. Dim ond rhif eich cerdyn llyfrgell sydd eisiau arnoch i gael mynediad rhad ac am ddim i'r holl gylchgronau hyn – bargen i unrhyw Gardi!

Llyfrau llafar sydd ar wefan **uLIBRARY**. Ar hyn o bryd, yn anffodus, nid oes llyfrau Cymraeg ar gael ar y wefan honno, ond mae'n werth taro cip ar yr ap i weld a oes rhywbeth at eich dant (neu'ch clust!) yn yr iaith fain!


Fel y nodwyd eisoes, mae'r holl adnoddau hyn yn rhad ac am ddim os ydych yn aelod o Lyfrgell Ceredigion. Er mwyn cael mynediad atynt, ewch i wefan Llyfrgell Ceredigion, cliciwch ar y botwm e-lyfrgell, ac yna dewiswch naill ai **BorrowBox**, **RBDigital** neu **uLIBRARY**, a dilynwch y cyfarwyddiadau er mwyn mewngofnodi a benthyca. Y ffordd arall i gael mynediad at yr adnoddau yw trwy lawrlwytho apiau **BorrowBox** ac **RBDigital** ar eich ffôn neu'ch dyfais clyfar, gan ddilyn y cyfarwyddiadau er mwyn cael mynediad trwy Lyfrgell Ceredigion. Os ydych yn cael trafferth wrth lawrlwytho, mae'r Llyfrgell eisoes wedi creu fideo i'ch helpu ar ein tudalen Facebook yn rhoi cyfarwyddiadau ar sut i lawrlwytho'r apiau'n llwyddiannus. Mae'n werth cymryd golwg arno!

Pob hwyl ar y darllen!

*Delyth Huws*




Mae'r Coronafeirws yn achosu pryder mawr i bob un ohonom ar hyn o bryd. Ond ystyriwch am eiliad sut mae'r cyfyngiadau presennol yn effeithio ar blant. Mae nhw hefyd wedi gweld newid mawr yn eu ffordd o fyw – dim ysgol, dim mynd allan i chwarae a chymdeithasu gyda ffrindiau, dim clwbiau gymnasteg, pêl-droed neu wersi dawnsio ac offerynol – ac maent yn aml yn rhy ifanc i ddeall pam mae hyn i gyd yn digwydd.




Mae'r llyfr ffeithiol digidol newydd ***Coronafeirws: llyfr i blant*** yn ffordd wych o helpu i esbonio beth sy'n digwydd mewn ffordd ddealladwy a syml i blant oed cynradd. Trwy gyfrwng lluniau apelgar dylunydd llyfrau *Y Gryffalo*, Axel Scheffler, mae addasiad Mari Lisa o'r Saesneg gwreiddiol yn egluro'n glir beth yw coronafeirws, a pha gamau mae'n rhaid eu cymryd er mwyn ei reoli. Mae'r llyfr yn ateb nifer o gwestiynau sylfaenol fel pam fod rhaid i bawb aros adref yn ystod y cyfnod hwn, a beth sy'n mynd i ddigwydd nesaf? Cwmni Atebol sydd yn gyfrifol am gyhoeddi fersiwn Cymraeg y llyfr, ac mae ar gael i'w lawrlwytho AM DDIM nawr mewn dull digidol oddi ar wefan y cwmni https://atebol-siop.com/coronafeirws-llyfr-i-blant.html

## Cornel Cerddi Papur Pawb

# Daw eto haul ar fryn

Hyd 'noed os yw hi'n haf,
Nid ydi mor braf,
Dim swn yn y pentref,
Mae pobl yn ei cartref,
Daw eto haul ar fryn.

Dim mynd i chwarae 'whist',
Dim ond cwis ar lein,
Mae'n rhaid fod 'twist',
Nid ydi mor ffein,
Daw eto haul ar fryn.

Mae'r parc ar gau,
Dim anturiaethau,
Mae llawer wedi diflasu,
A mae'r plant yn adolygu,
Daw eto haul ar fryn.

Mae'r tŷ mor dawel a bedd,
Nid oes neb yn gadael y tŷ,
Mae hwn yn dda i'r amgylchedd,
Dim awyrennau fyny'n fry,
Daw eto haul ar fryn.

Yr adar bach yn canu,
Ar gog yn ein llonni,
Mynd i lefydd cudd Bont Goch,
Dim sŵn y ceir croch,
Daw eto haul ar fryn.

Mae gwyliau haf yn agosáu,
Ond bydd dim Eisteddfod na sioeau,
Dim byd yn awr,
Ond tu fewn yn ddwfn yn ein calonnau,
Gwyddom daw eto haul ar fryn.

*Caoimhe Melangell Pennant*

# Anweledig Arwyr

Ein hannweledig arwyr
Yn ddiwyd maent yn awr,
Bob awr yn rhoi o'u gofal-
Yn rhannu cariad mawr.

Y rhain sy'n rhannu'n dawel
Gan roi eu hun yn llwyr,
Eu colli wna pawb adre'
Nes do'nhw i mewn yn hwyr

'di blino ac yn llwgu,
'Does eiriau na all ddweud,
Eu plant a'u teulu'n poeni-
Does dim a allant wneud.

'Mond aros am yr amser
Pan yr ânt hwythau'n sâl,
Gobeithio am y gorau –
Dim PPE ar gael.

A 'm ond rhai nas cyffyrddir
Gan lwybr gwae y pla,
Cwympo wnaiff y gweddill
Wrth draed ei fud draha.

Fe rônt eu bywyd inni,
'S dim aberth mwy i'w gael,
Fel Un a wnaeth i ninnau,
Ei roi, a'i roi mor hael.

*Delyth Gwyn*

# Grŵp Caru Gwenyn y Cletwr

Bydd ein darllenwyr yn cofio yr erthygl yn Papur Pawb mis Ebrill am y cais i gael gerddi'r Cletwr wedi'u hachredu o dan gynllun Caru Gwenyn Llywodraeth Cymru. Cynllun yw hwn sy'n hybu peillwyr o bob math, nid gwenyn yn unig. Os ydych yn digwydd mynd heibio i erddi'r Cletwr a gweld pryfyn fel cacynen, iâr fach yr haf neu bryf hofran yn bwydo ar un o'n blodau, da chi, tynnwch lun ohono a'i anfon at events@cletwr.com. Bydd lluniau o'r fath yn ddefnyddiol iawn fel tystiolaeth i'r cais. Diolch o galon.

Hefyd, efallai y byddai rhai ohonoch chi'n mwynhau gwneud ychydig o 'wyddoniaeth y dinesydd' yn eich gerddi yn ystod y misoedd rhyfedd yma, yn arbennig gan fod yr haul bendigedig yn denu sawl pryfyn diddorol iddyn nhw. Ewch at: https://www.ceh.ac.uk/our-science/projects/pollinator-monitoring a sgrolio i lawr am y dogfennau Cymraeg. Dyma ffordd ardderchog o ddod i nabod ein pryfed yn well a chyfrannu at ymchwil hynod bwysig.

*Siân Saunders*


**Tylino Thai Trefechan**
*Trefechan Thai Massage*
Tylino Thai £25 yr awr
Tylino Olew £30 yr awr
Tylinwraig â chymhwyster
Am sesiwn, ffoniwch ni ar
**07878 071367**





Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674



CANOLFAN M.O.T. HUW LEWIS M.O.T. CENTRE
TEIARS HUW LEWIS TYRES
Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT
HUWLEWISTYRES.COM
Glanyrafon
Rhodfa'r Parc
Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.
ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221



**Grant Mayhew Ltd**
GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL





01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk




*Elin Mair Mabbutt, Dr Helen Miles a Myfanwy Cowdy – tair aelod o staff y cynllun*

# Arwain Prosiect Uchelgeisiol

Mae Dr Helen Miles, sy'n byw yn Stryd Newydd, Tal-y-bont, gyda'i phartner Matt Gunn, yn arwain prosiect uchelgeisiol Cynhyrchu Cyfryngau Uwch, Prifysgol Aberystwyth. Mae'r prosiect, sydd wedi'i ariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru, yn cefnogi cwmnïau a sefydliadau Cymru trwy ddarparu hyfforddiant rhad ar dechnoleg a datblygiadau newydd yn y meysydd cynhyrchu digidol a chyfryngau, prosiect sy'n hynod amserol o ystyried effaith yr argyfwng presennol.

Trwy gydweithio gyda Phrifysgol Aberystwyth, cyflwynir yr hyfforddiant mewn fformat hyblyg sy'n ymateb i'r diwydiant ac sy'n galluogi i fyfyrwyr weithio trwy ddysgu o bell â chymorth i ddiweddaru eu gwybodaeth dechnegol, gwreiddio diwylliant ymchwil yn y gweithle ac, os dymunant, weithio tuag at gymwysterau ôl-raddedig wedi'u teilwra i anghenion eu diwydiant. Dyluniwyd rhaglen, sydd ar-lein i raddau helaeth, i ganiatáu i fyfyrwyr astudio heb yr angen i gymryd amser allan o'r gwaith ac mae'n ddigon hyblyg i ffitio astudio o amgylch gwaith ac ymrwymiadau eraill.

Yn ôl Helen: "Mae lle i ymfalchïo yn y llwyddiant mae Cymru wedi ei gael yn y sector diwydiannau creadigol hyd yn hyn, fodd bynnag, mae'n hanfodol datblygu'r sgiliau technegol hyn a pharhau i ysbrydoli menter, ac uwchsgilio'r gweithlu presennol o ganlyniad i'r technolegau a chyfryngau digidol sy'n newid o hyd."


Dywed hefyd: "Rydyn ni wedi ystyried busnesau ac unigolion wrth ddylunio'r cwrs MSc Cynhyrchu Cyfryngau Uwch fel ei fod yn hyblyg, yn hawdd ei gyrchu i'w ddysgu ar-lein ac y gellir ei gyfuno â gwaith ac ymrwymiadau eraill cyflogeion. Mae'r hyfforddiant achrededig lefel uchel hwn a'r arbenigedd cyfun gan adrannau Cyfrifiadureg, Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu a Hanes a Hanes Cymru y Brifysgol yn fuddiol i fusnesau ac unigolion ac yn eu galluogi i fod yn fwy cynhyrchiol, cynaliadwy ac effeithlon."

Mae gan Helen raddau BSc (2010) a PhD (2014) mewn Cyfrifiadureg o Brifysgol Bangor. Symudodd i Aberystwyth yn 2014 i weithio ar y prosiect 'Heritage Together', i gasglu recordiau digidol 3D o safleoedd archeoleg neolithig Cymru. Yn 2015, dechreuodd weithio fel darlithydd i'r adran. Ers 2016, mae Helen wedi bod yn gweithio fel rhan o dîm ExoMars Prifysgol Aberystwyth ond ar hyn o'r bryd, mae hi'n arwain y prosiect £2.4m Cynhyrchu Cyfryngau Uwch.

Dyma'r tro cyntaf i ni adrodd yn *Papur Pawb* am Helen a Matt (sy'n gweithio ar y prosiect cyffrous ExoMars), ac efallai pan fydd yr amgylchiadau'n fwy rhydd, cawn mwy o'u hanes. Yn y cyfamser croeso i'n plith.

# CHWARAEON

## Camp Mair



Pwy yw'r person enwocaf o Gymru am gicio pêl y dyddiau hyn? Gareth Bale, Aaron Ramsey neu Leigh Halfpenny hyd yn oed? Nage… yr ateb yw Mair Nutting, Tal-y-bont.

Does neb wedi cael cymaint o sylw yn y wasg na'r cyfryngau na Mair, wedi iddi lwyddo â chicio pêl o'i gardd drwy ffenestr y lloft. Ffilmiwyd y gamp gan ei mab Garmon ac wedi iddo osod y fideo ar- lein cafwyd sylw aruthrol iddo ar y cyfryngau cymdeithasol, yn rhannol gan i Mair ddathlu'i champ drwy ddynwared dathliad 'robot' Peter Crouch, cyn-chwaraewr Lloegr. Mae'n debyg i gannoedd o filoedd wylio'r fideo erbyn hyn.


Dangoswyd y fideo ar Match of the Day a bellach mae'n rhan o hysbyseb chwaraeon ar y teledu. Cafwyd ymateb ffafriol hefyd gan Peter Crouch ei hun.

Er mwyn diddanu ei gilydd, roedd Garmon wedi bod yn annog ei fam i wneud heriau gwahanol tra'n hunanynysu, a dyma oedd y canlyniad.

Deallwn nad oes gwirionedd yn y sibrydion fod Jayne Ludlow, rheolwraig tîm pêl-droed merched Cymru, yn ystyried galw Mair i'w charfan.




*Fideo o Mair Nutting yn 'mynd yn feiral' ar ôl iddi gicio pêl drwy ffenest ei thŷ*







## Garddio



Os ydych yn mentro i'r ardd am y tro cyntaf eleni neu yn dipyn o Monty Don eisoes, galwch mewn i dudalen Weplyfr (Facebook) *Tal-y-bont Community Gardeners* i gael cip ar beth sy'n digwydd yn rhai o erddi'r ardal.

Cymuned Weplyfr newydd yw hon a flagurodd ddechrau mis Ebrill o ganlyniad i'r nifer o gynigion o blanhigion, cwestiynau, cyngor a chlonc bysedd-wyrdd ar Weplyfr Grŵp Covid Tal-y-bont. Mae 40 o aelodau erbyn hyn a chynigion o lysiau, blodau ac hyd yn oed wyau ar gael yn rhad ac am ddim o amgylch y pentref.

Peth braf byddai gweld y grŵp yma yn ffynnu ac yn parhau i mewn i'r flwyddyn nesaf ac ymhellach. Pan fydd yr amser yn iawn, efallai cawn gydweithio ar brosiectau cymunedol a fyddai o fudd a lles i'r ardal. Yn y cyfamser byddai cyngor at sut i gadw letys rhag y malwod yn grêt!

